**Cofnodion Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeedig Cymru**
20 Ionawr 2010, Ystafell Glandyfi, Rhodfa Padarn, Aberystwyth
11am-3pm

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd: | Caryn Le Roux (CLR) | (Llywodraeth Cynulliad Cymru) |
| Yn bresennol: | Trevor Dines (TD) | (Plantlife) |
| | Rosie Carmichael (RC) | (Cyngor Sir Caerfyrddin) |
| | Hilary Miller (HM) | (Cyngor Cefn Gwlad Cymru) |
| | Clare Burrows (CB) | (Cyngor Cefn Gwlad Cymru) |
| | Dafydd Jarrett (DJ) | (NFU) |
| Cofnodion: | Frances Gillett (FG) | (Llywodraeth Cynulliad Cymru) |
| Ymddiheuriadau: | Charles Morgan | (Pori Natur a Threftadaeth) |
| | Charles Grisedale | (Ymddiriedolaeth Adfer y Cornicyll) |
| | Gethin Davies | (Parc Cenedlaethol Eryri) |
| | Dave Lamacraft | (RSPB) |
| | Juliet Hynes | (Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru) |

1. **Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

Adolygodd CLR gylch gwaith y grŵp yn fyr. Mae'r Cydbwyllgor Gwarchod Natur wedi cynnull grŵp Tir Ffermio Isel i'r DU i weithredu fel grŵp coladu i'r targedau BAP yn Lloegr a'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Yr agwedd ar hyn o bryd yw y dylai targedau Cymru parhau i fwydo i dargedau'r DU ar BARS am y tro.

2. **Cofnodion a phwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf**

Cadarnhawyd y cofnodion ac roedd y pwyntiau gweithredu i gyd un ai wedi'u cwblhau neu'n cael eu cario ymlaen gan roi sylw iddynt yn y cyfarfod hwn.

3. **Grwpiau Llywio Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynefin y DU**

Mae grwpiau llywio Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynefin y DU yn dal i gwrdd, fel fforymau technegol yn ôl pob golwg. Ceisiwyd eglurhad o'u cylch gwaith swyddogol, ond yn y cyfamser mae aelodau o'r grŵp hwn yn eistedd ar y cyfarfodydd hynny. Rhoddwyd adborth ohonynt gan CB (Gwrychoedd ac Ymylon Caeau Âr) a HM (Perllannau):

**Gwrychoedd** –
Mae gwefan Hedgelink wedi cael ei diweddaru. Mae grŵp y DU yn awyddus i wella'r cyfathrebu â ffermwyr.
**DJ** i edrych ar wefan Hedgelink a chynnwys y ddolen gyswllt yng nghylchlythyr yr NFU.
**CLR** i ymchwilio i roi tudalen Gymraeg ar Hedgelink a chael cyfieithiad.

Mae gan grŵp y DU is-grŵp ymchwil a datblygu i ystyried a chomisiynu prosiectau. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n helaeth iawn ar Loegr. Mae hyn yn broblem gyda holl ymchwil Defra, ac mae gwaith ar y gweill yn Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â hyn.

**CLR** i godi'r cwestiwn sut mae gwella mewnbwn Cymru o ran Ymchwil a Datblygu yng nghyfarfod Cadeiryddion y Grwpiau Ecosystem.

Hefyd, trafodwyd defnyddio lle adnoddau'r Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeedig (EFEG) ar wefan PBC fel storfa wybodaeth ganolog am ymchwil a datblygu.

**CLR** i gadarnhau hyn gyda'r Cadeiryddion Tir Fferm Amgaeedig megis uchod, yn nghyswllt pob cynefin â blaenoriaeth.

**Ymylon Caeau Âr –**
Ni fu neb mewn cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeedig felly nid oedd dim i'w adrodd.

**Perllannau Traddodiadol –**
Mae'r cynefin â blaenoriaeth wedi cael ei ddiffinio erbyn hyn.
Mae'r targedau a'r cynllun gweithredu yn dal i gael eu datblygu ond y blaenoriaethau tebygol fydd cadw perllannau traddodiadol, yna ehangu, wedyn creu safleoedd newydd.
Blaenoriaeth arall fydd sefydlu llinell sylfaen y stoc o berllannau traddodiadol yng Nghymru. Mae'r People's Trust for Endangered Species wedi datblygu pecyn arolygu, sydd wedi cael ei gyfieithu gan y Cyngor Cefn Gwlad, ac mae HM wedi gwneud cais am gyllid fel bod modd bwrw ymlaen â rhai arolygon.

## 4. Glastir

Trafodwyd targedu cynefinoedd â blaenoriaeth drwy gynllun lefel uwch Glastir. Teimlai'r grŵp fod y mapiau a gynhyrchwyd ar gyfer ymylon caeau âr a pherllannau yn rhesymol, ond eto tynnwyd sylw at yr angen i'r grŵp hwn annog gweithredu ar gynefinoedd o'r mathau hyn y tu allan i Glastir.
Y bwriad yw targedu'r opsiynau gwrychoedd mewn ardaloedd tirwedd, ardaloedd a dargedir yng nghyswllt rhai rhywogaethau, a ffriddoedd yn unig. Roedd teimlad y byddai hyn yn hepgor ardaloedd tir isel ac ardaloedd ucheldir eraill, a hefyd y byddai'n cyfyngu ar argaeledd taliadau cyfalaf. Teimlai'r grŵp y dylai'r opsiynau gwrychoedd fod ar gael ym **mhob** ardal sy'n cael ei thargedu.
**CB** i fynd â'r farn hon yn ôl i'r ymgynghoriad nesaf.

## 5. Y diweddaraf am bolisi

Roedd CLR wedi mynd â rhestr o faterion polisi yn ôl i gyfarfod grŵp polisi PBC, ac mae i fod i gwrdd â Diana Reynolds (Llywodraeth y Cynulliad) i symud rhai o'r rhain ymlaen.

Gorchmynion Cadw Coed – mae'r rhain yn gweithredu o dan gyfraith cynllunio Awdurdodau Lleol at bwrpasau amwynder. Y cwestiwn yw a oes modd eu defnyddio i amddiffyn coed sy'n cynnal bioamrywiaeth/rhywogaethau eraill â blaenoriaeth.

**TD** i gynhyrchu rhestr o goed a chennau y dymunir cael Gorchmynion Cadw Coed ar eu cyfer.
**CLR** i gylchredeg dogfen 'amddiffyn drwy bolisi a deddfwriaeth' er gwybodaeth.

Dywedodd **TD** fod Plantlife wrth eu bodd fod arian drwy Gynllun Grantiau Bach Llywodraeth y Cynulliad wedi cael ei ddarparu ar gyfer prosiect gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Trefrane.
**CLR** i ganfod pa gyllideb sy'n bodoli a pha bryd y bydd ar gael y flwyddyn nesaf oddi wrth Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth fel bod modd cynllunio'n well.

### 6. Y diweddaraf am gysylltu rhywogaethau

Bydd 56 rhywogaeth yn dod o fewn pecynnau dewisiadau rhanbarthol elfen Cymru Gyfan Glastir.
Mae PBC wedi dechrau cyhoeddi cynlluniau gweithredu i rywogaethau unigol â blaenoriaeth neu i grwpiau o rywogaethau. Bydd angen inni drawswirio'r rhain yn erbyn ein cynlluniau gweithredu. Mae rhywogaethau wedi cael eu cyfeirio i'r Grwpiau Ecosystem, ond nid ydym wedi gweld y rhain eto.
**TD** i fynd ar ôl y rhestr rywogaethau ar gyfer y grŵp ecosystem tir fferm amgaeedig.

### 7. Targedau o ran rhywogaethau goresgynnol estron

Ystyriwyd taenlen o'r rhain a gynhyrchwyd gan y grŵp Rhywogaethau Goresgynnol Estron gan ofyn am ein hadborth. Ychydig o blanhigion sy'n berthnasol i'n cynefinoedd â blaenoriaeth ni ar hyn o bryd. Ychydig o effaith a gaiff y wiwer lwyd ar wrychoedd, er bod gwrychoedd yn gyfrwng lledaenu i'r rhywogaeth, a allai wedyn gael mwy o effaith ar gynefinoedd a rhywogaethau eraill, yn enwedig y wiwer goch. Bydd angen inni ystyried hyn o dan y camau gweithredu yn gysylltiedig â rhywogaethau.
**TD** i ddarparu sylwadau i Mike McCabe am y wiwer lwyd ar yr un pryd ag y bydd yn adrodd ar faterion planhigion.

### 8. Cynlluniau gweithredu Cymru ar gynefinoedd â blaenoriaeth

Trafodwyd y templed ar gyfer y rhain, a chytunwyd ar y ffordd ymlaen.
**CB** i gael rhaglenni gwaith gan grwpiau Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynefin y DU gogyfer â gwrychoedd ac ymylon caeau âr. Camau gweithredu yn deillio o gofnodion cyfarfodydd y Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeedig i gael eu hychwanegu.

**HM** i fod yn gyfrifol am y cynllun gweithredu Perllannau Traddodiadol
**CLR** gwrychoedd
**TD** ymylon caeau âr
Cwrdd ag eraill neu'u cylchredeg fel sy'n bosibl/priodol

**CLR** i gasglu'r rhain ynghyd â rhoi gwybod am y camau nesaf.

## 9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

28 Ebrill 2010 yn Aberystwyth. DS Cafodd hyn ei newid wedi hynny i 5 Mai 2010, pan gyfarfu is-grŵp i fynd drwy'r Cynlluniau Gweithredu a gynhyrchwyd dan 8 uchod.